
Nodiadau Athrawon

# Gweithgaredd 2: Kindertransport a’r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 2 - Y Daith

USC Shoah Foundation | IWITNESS

JHASW/CHIDC




## PWNC

Kindertransport

Ffoaduriaid sy’n Blant yng Nghymru

## GRŴP OEDRAN

Blwyddyn 7 (12 oed)

Cam Cynnydd 4

## HYD

1 awr

## MEYSYDD DYSGU A PHROFIAD

Iechyd a Lles

Dyniaethau

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

## DISGRIFIAD

Yn y gweithgaredd hwn, bydd myfyrwyr yn dysgu am brofiad y plant wnaeth ffoi yn ystod y 1930au a’u taith i’r DU. Byddant yn datblygu dealltwriaeth o'r effaith emosiynol ar deuluoedd ac yn dysgu am yr ymateb byd-eang i'r Kindertransport.

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhan o'r modiwl *Kindertransport a’r Plant a Ffodd i Gymru* ac argymhellir cwblhau Gweithgaredd 1 - *Y Cefndir* y modiwl hwn cyn cwblhau'r gweithgaredd hwn.*

## NODAU DYSGU

O ganlyniad i gwblhau’r gweithgaredd hwn bydd myfyrwyr yn:

- Datblygu dealltwriaeth o effaith emosiynol y Kindertransport ar deuluoedd ffoaduriaid.
- Deall yr ymateb byd-eang i'r Kindertransport.
- Datblygu dealltwriaeth o'r anawsterau a'r peryglon yr oedd y plant a wnaeth ffoi yn ystod yr Ail Ryfel Byd yn eu hwynebu.
- Gwneud y cysylltiad lleol yn y Gymru gyfoes.

## OFFER SYDD EI ANGEN

Bwrdd gwyn/marcwyr, taflunydd, cyfrifiadur i wrando ar dystiolaeth.

---

* Ceir rhestr lawn o weithgareddau ar ddiwedd y ddogfen hon.

European Commission

© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

© 2022 USC Shoah Foundation

Nodiadau Athrawon

# Gweithgaredd 2: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 2 - Y Daith

USC Shoah Foundation | IWITNESS

JHASW/CHIDC

## Ystyriwch

Ar y bwrdd, ysgrifennwch y gair 'Taith'. Gofynnwch i'r myfyrwyr feddwl am y gair hwn a pha eiriau eraill sy'n dod i'r meddwl pan fyddant yn meddwl am y gair penodol hwn. Gofynnwch i'r myfyrwyr feddwl am eu taith ddiweddaraf. Gallai hyn fod yn wyliau, taith i weld teulu, ffrindiau, apwyntiad, ac ysgrifennwch yr ymatebion ar y bwrdd.

Gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu, ar y daflen waith i fyfyrwyr, dri emosiwn roedden nhw'n eu teimlo wrth fynd ar eu taith, ee cyffro, ofn, hapusrwydd, tristwch, pryder, diogelwch, ac ati (**Tasg 1**).

Taflwch fap gwag o Gymru (**Taflen 3**) ar y bwrdd gwyn, gofynnwch i'r myfyrwyr a allant ddod o hyd i Lanwrtyd (wedi'i farcio'n goch) a hefyd eu lleoliad eu hunain. Fel cwestiwn cyffredinol, gofynnwch i'r myfyrwyr a ydyn nhw'n gwybod am y dref hon. Eglurwch y byddan nhw'n clywed tystiolaeth gan un o oroeswyr yr Holocost a phlentyn a ddaeth i Lanwrtyd fel ffoadur yn y 1930au.




*Map o Gymru.*
*Delwedd: Google Maps ©2021.*

European Commission

© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

jhasw.com
iwitness.usc.edu

© 2022 USC Shoah Foundation

Nodiadau Athrawon

# Gweithgaredd 2: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 2 - Y Daith

## Casglu

Gofynnwch i'r myfyrwyr ddarllen bywgraffiad byr Robert Wasserberg, plentyn a ffodd o Tsiecoslofacia (y Weriniaeth Tsiec erbyn hyn), a gwybodaeth am Lanwrtyd (**Taflen 1**).

Dywedwch wrth y myfyrwyr y byddant yn gwrando ar dystiolaeth gyntaf Robert Wasserberg (Clip 1).

Unwaith y byddant wedi darllen y deunyddiau ac wedi gwrando ar Clip 1, gofynnwch i'r myfyrwyr weithio mewn parau a chwblhau **Tasg 2** ar y daflen waith i fyfyrwyr:

a) Beth mae'r clip yn ei ddweud wrthych chi am y sefyllfa yng ngwlad enedigol Robert? Ysgrifennwch ddau air sy'n disgrifio'r sefyllfa.

b) Beth mae'r clip yn ei ddweud wrthych chi am yr effaith emosiynol ar Robert a'i deulu o orfod gadael eu cartref? Rhestrwch dri emosiwn a brofwyd gan Robert a'i deulu.

c) A oes unrhyw debygrwydd a/neu wahaniaethau rhwng yr emosiynau a restrwyd gennych yn **Nhasg 1** a'r emosiynau a nodwyd gennych yn y clip? Beth ydych chi'n ei feddwl amdano?

Gofynnwch i'r myfyrwyr wrando ar Clip 2 ac yna, gan weithio mewn parau, cwblhewch **Dasg 3** ar y daflen waith:

a) Rhestrwch dair gwlad y teithiodd Robert drwyddynt i gyrraedd y DU.

b) Nodwch y gwledydd hyn ar y map gwag o Ewrop sydd yn y daflen waith.[1]

c) Mewn ychydig frawddegau, ysgrifennwch sut mae Robert yn disgrifio ymateb gwledydd gwahanol i'r plant a oedd yn ffoi rhag erledigaeth y Natsïaid.

d) Rhowch un enghraifft o sut nad oedd Robert yn ddiogel.

e) Rhestrwch dair ffordd y bu i bobl ddangos caredigrwydd tuag at Robert a'r plant eraill.

## Llunio

Gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu llythyr byr ar ran Robert ifanc at un o'i ffrindiau neu aelodau o'i deulu, y byddai wedi'i ysgrifennu ar ei daith (**Tasg 4**).

[1] Wikimedia Commons, *BlankMap -Europe*, 2015 < https://commons.wikimedia.org/wiki/File:BlankMap-Europe.png > [cyrchwyd 9 Tachwedd 2021].


© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

© 2022 USC Shoah Foundation

Nodiadau Athrawon

# Gweithgaredd 2: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 2 - Y Daith

USC Shoah Foundation | IWITNESS

JHASW/CHIDC

## Llunio parhad

Dylai myfyrwyr feddwl am yr emosiynau a deimlwyd gan Robert a'i deulu yn ogystal â'u teimladau eu hunain. Efallai yr hoffent gynnwys gwahanol elfennau'r daith, ee ffarwelio, peryglon, caredigrwydd.

## Cyfathrebu

Dylai myfyrwyr ddewis un o'r ddau opsiwn isod:

Opsiwn 1

Darllenwch o leiaf un llythyr a ysgrifennwyd gan eich cyd-ddisgyblion a rhowch sylw yn esbonio sut mae'r llythyr hwn yn ychwanegu at eich dealltwriaeth o'r Kindertransport neu effaith emosiynol profiad plentyn oedd wedi ffoi.

Opsiwn 2

Anfonwch neu dangoswch y llythyr a ysgrifennoch at ffrind neu aelod o'r teulu a thrafodwch gyda nhw sut y mae'n ychwanegu at eu dealltwriaeth o'r Kindertransport neu effaith emosiynol profiad plentyn oedd wedi ffoi.

Wrth baratoi ar gyfer **Gweithgaredd 3** y modiwl, gofynnwch i'r myfyrwyr ddod ag ychydig o ffotograffau (neu gopïau) i'r wers nesaf, y maen nhw'n meddwl sy'n cynrychioli eu hoff le ac ymdeimlad o gymuned orau. Gall hyn fod yn deulu, eu cartref, eu ffrindiau, gwyliau. Os dymunant, gall myfyrwyr hefyd dynnu llun o'u hoff le. Ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn gallu dod â ffotograffau a/neu nad ydynt yn teimlo'n gyfforddus wrth dynnu lluniau, bydd delweddau ar gael i'w hargraffu, o fewn **Gweithgaredd 3**.

## Atodiadau

1. Taflen 1: Robert Wasserberg a Llanwrtyd.
2. Taflen 2: Trawsgrifiad Fideo.
3. Taflen 3: Map Gwag o Gymru.
4. Taflen 4: Taflen Waith y Myfyrwyr.

European Commission

© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

© 2022 USC Shoah Foundation

jhasw.com
iwitness.usc.edu

Nodiadau Athrawon

# Gweithgaredd 2: Kindertransport a’r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 2 - Y Daith

USC Shoah Foundation | IWITNESS

JHASW/CHIDC

## Rhestr o Weithgaredddau

Gweithgaredd 1: Kindertransport a’r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 1 - Cefndir.
Gweithgaredd 2: Kindertransport a’r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 2 – Y Daith.
Gweithgaredd 3: Kindertransport a’r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 3 - Cyrraedd Cymru.
Gweithgaredd 4: Bywyd Iddewig yn Ewrop Cyn y Rhyfel: Hunaniaeth, Amrywiaeth a Chyffredinolrwydd.
Gweithgaredd 5: Yr Effaith Gyfreithiol: Sut Gall Cyfreithiau Erlid neu Ddiogelu.
Gweithgaredd 6: Rhagfarn a Phropaganda.
Gweithgaredd 7: Prydain a Cholled Etifeddol: Rhan 1.
Gweithgaredd 8: Prydain a Cholled Etifeddol: Rhan 2.
Gweithgaredd 9: Ailfeddwl Cyfrifoldeb.
Gweithgaredd 10: Gwrthsafiad a Chofio.

## Delwedd Clawr

Taith Robert Wasserberg o Košice, Tsiecoslofacia, i Lanwrtyd, Cymru. Graffeg wedi'i chreu gan JHASW/ CHIDC.

European Commission

© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

© 2022 USC Shoah Foundation